South West and Mid Wales Consortium
Consortiwm De-Orllewin a Chanolbarth Cymru

Bwrdd Gweithredol / Executive Board

13 Chwefror 2015/ 13th February 2015
Gwesty Parc y Strade / Stradey Park Hotel
Llanelli
1.45 p.m. – 3.15 p.m.

YN BRESENNOL:	Mr. Eifion Evans [Cadeirydd] Cyfarwyddwr Arweiniol ERW Cyngor Sir Ceredigion;
Mr. Aled Evans	Castell-nedd Port Talbot
Ms. Kate Evan-Hughes	Cyngor Sir Penfro
Mr. Alan Tudor Jones	Aelod annibynnol o'r Bwrdd
Ms Betsan O'Connor	Rheolwr Gyfarwyddwr ERW
Mr. Ian Roberts	Cyngor Sir Powys
Mr. Brian Roles	Dinas a Sir Abertawe
Ms. Mererdid Stone	Aelod annibynnol o'r Bwrdd
Mr. Rob Sully	Cyngor Sir Caerfyrddin
Mr. Martin S. Davies	Cyngor Sir Caerfyrddin
Hefyd yn bresennol yn sylwedyddion:	
Mr Geraint Rees	Llywodraeth Cymru
Mr. Lindsay Harvey	Llywodraeth Cymru
Ms. Sarah Fulthorpe	Llywodraeth Cymru
Yn bresennol ar gyfer cofnod 4:	
Mr. Alan Edwards	Yr Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Edna Davies (Ysgol Gynradd Arberth, Sir Benfro, Cadeirydd y Bwrdd Penaethiaid), Jonathan Haswell (Swyddog Adran 151, Sir Benfro), Mike Gibbon (Ysgol Sandfields, Castell-nedd Port Talbot, is-gadeirydd, y Bwrdd Penaethiaid) a Chris Sivers (Abertawe).

2. DATGANIAD O FUDDIANT PERSONOL

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol.

3. COFNOD O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 IONAWR 2015

Cafodd y Cydbwyllgor y cofnod o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2015 i'w ystyried.

Dywedodd Betsan O'Connor wrth y Bwrdd fod y cyd-drafod yn parhau â FFT i sicrhau gwell pris a'i bod yn gobeithio cael gostyngiad sylweddol.

Dywedodd y Cadeirydd fod Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) yn cefnogi'r rhaglen Gwobrwyo Rhagoriaeth ac y byddai'n cadw briff gwylio. Awgrymodd y dylai ef, Betsan O'Connor a Graham Jones ei hastudio ymhellach.

CYTUNWYD i gadarnhau bod y cofnod o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr, 2015 yn gofnod cywir.

4. RHAGLEN TGAU

Cafodd y Bwrdd gyflwyniad gan Mr Alan Edwards, yr Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd, am gymorth rhanbarthol ar gyfer gweithredu'r TGAU newydd. Dywedodd fod y gwaith ar y trywydd cywir i fodloni'r holl ganlyniadau y cytunwyd arnynt. Dywedodd Betsan O'Connor y byddai'r cyflwyniad yn cael ei rannu gydag ysgolion.

5. DIWEDDARIAD GAN Y CYFARWYDDWR ARWEINIOL A'R RHEOLWR GYFARWYDDWR

Holodd Betsan O'Connor farn y Bwrdd am logo newydd i ERW a gynlluniwyd ar ôl cael trafodaethau gyda thîm Cyfathrebu Cyngor Sir Caerfyrddin. Y newid hanfodol o'r logo cyfredol oedd y byddai'r chwe 'phetal' i gyd [sy'n cynrychioli'r 6 Awdurdod yn y Consortiwm] yr un faint â'i gilydd. Ychwanegodd mai'r neges bwysig i'w chyfleu i'r cyhoedd yw mai partneriaeth o chwe awdurdod lleol yw ERW ac nid cwango.

CYTUNWYD i gadarnhau'r logo a'r is-bennawd newydd.

6. DIWEDDARIAD ARIANNOL

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr adroddiad a gylchredwyd gan y Prif Swyddog Cyllid a ystyriwyd gan Gydbwyllgor ERW yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror 2015 ac a oedd yn rhoi diweddariad ariannol am gyllideb 2014/15 ynghyd â manylion y gyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16 a'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2016-17. Roedd yr adroddiad hefyd yn manylu ar y toriadau yn ystod y flwyddyn, y cyllid Grant Gwella Addysg 2015/16 dangosol a'r fethodoleg ar gyfer cyllido'r Grant Gwella Addysg (GGA). Cynghorwyd y Bwrdd fod y Cydbwyllgor wedi cytuno ar y canlynol:

- Cymeradwyo cyllideb ddiwygiedig 2014/15;
- Cymeradwyo cyllideb ddrafft 2015/16, gan gynnwys defnyddio £100k o'r Cronfeydd Awdurdod Lleol a chyfanswm cyfraniad o £250k gan y chwe awdurdod lleol cyfansoddol;
- Nodi'r diweddaraf am y Toriadau Grant yn ystod y Flwyddyn;
- Nodi'r Dyfarniad o gyllid y Grant Gwella Addysg (GGA).

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yr heriau ariannol a wynebai'r awdurdodau lleol yn lleihau a bod angen monitro'r gyllideb yn ofalus.

CYTUNWYD I

6.1. nodi'r adroddiad ac argymhellion y Cydbwyllgor;

6.2. anfon y dewisiadau ar gyfer dosbarthu'r cyllid GGA ar draws y chwe awdurdod lleol ymlaen at Betsan O'Connor gyda'r bwriad o wneud argymhelliad ffurfiol gan y Cyfarwyddwr Arweiniol / Rheolwr Gyfarwyddwr ERW i'r Cydbwyllgor i'w gymeradwyo.

7. ADOLYGIAD O GYMORTH I LYWODRAETHWYR YN RHANBARTH ERW

Atgoffwyd y Bwrdd fod y Model Cenedlaethol yn disgwyl i Gymorth i Lywodraethwyr gael ei gydlynu'n rhanbarthol o fis Mawrth 2015 a bod hwnnw ar waith o fis Medi 2015. Roedd y disgwyliadau'n cynnwys rhaglen hyfforddi gydgysylltiedig gyda sicrwydd ansawdd a sicrhau ansawdd y cymorth a roddir. Yn unol â hynny, cylchredodd Betsan O'Connor adroddiad a oedd yn amlinellu'r sefyllfa gyfredol, y cryfderau cyffredin a'r camau sy'n ofynnol i ffurfioli ffocws rhanbarthol y rhaglen gyfredol o gymorth llywodraethwr i lywodraethwr.

CYTUNWYD I

7.1. nodi Ymgynghorydd Her arweiniol i oruchwylio cymorth i lywodraethwyr ar lefel y naill Hwb neu'r llall, monitro'r cyflenwi lleol a'r cyflenwi yn yr hwb, cysylltu â thimau cyflawni ALl gan wneud y mwyaf o'r cyfathrebu a gwella'r cyfathrebu rhwng Swyddogion Cymorth Llywodraethwyr ac Ymgynghorwyr Her;

7.2. cryfhau a ffurfioli'r cysylltiadau cyfathrebu rhwng swyddogion cymorth llywodraethwyr ac ymgynghorwyr her;

7.3. defnyddio, ac egluro, y cysylltiadau â Llywodraethwyr Cymru, lle bo'n berthnasol, i osgoi dyblygu;

7.4. cyflenwi'r elfennau sylfaenol a nodir uchod yn gyson o dda ar draws y chwe awdurdod lleol;

7.5. cynnwys cymorth i lywodraethwyr yn rhan o'r Ysgol Cymorth ac Ymyrraeth;

7.6. datblygu rhaglen o fentora llywodraethwyr a chyrff llywodraethu mewn achosion lle gwelir bod y corff llywodraethu'n cael trafferth yn deall y broses gwella ysgolion a'i harwain yn strategol.

8. UNRHYW FUSNES ARALL

Cyfeiriodd Betsan O'Connor at dendr gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwirio Asesiadau Athrawon ac awgrymodd y dylai ERW geisio cydweithio â'r tri rhanbarth arall i gynnig am y tendr.

CYTUNWYD i awdurdodi Betsan O'Connor i fynd ymlaen mewn partneriaeth ar ran ERW a'r Bwrdd Gweithredol.